# (2)LEG-29-2004(min)

# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION:

**Dyddiad:** 7 Rhagfyr 2004

**Amser:** 9:30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Yn Bresennol:

| | |
|---|---|
| Eleanor Burnham | (Democratiaid Rhyddfrydol) |
| Christine Chapman | (Llafur) |
| Jeff Cuthbert | (Llafur) |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | (Ceidwadwyr) |
| Tamsin Dunwoody-Kneafsey | (Llafur) |
| Irene James | (Llafur) |
| Laura Jones | (Ceidwadwyr) |
| Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Janet Ryder | (Plaid Cymru) |

### Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Y Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |

### Ymddiheuriadau am absenoldeb:Rosemary Butler

### Eitem 1: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – (2)LEG-28-2004

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2004.

### Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd

2.1. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cyfarfod diwethaf felly awgrymodd y Cadeirydd y dylid mynd

ati yn syth i drafod y ddeddfwriaeth.

## Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

3.1 LC997 – Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2005

Rhoddodd y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol wybod i'r Aelodau fod y flwyddyn yn nheitl y Gorchymyn yn yr adroddiad drafft yn anghywir. Dywedodd y câi'r gwall bach hwn ei gywiro yn fersiwn derfynol yr adroddiad. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

3.2 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC998 – Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2005

LC995 – Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2005

LC993 – Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004

LC994 - Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004

## Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

4.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 11 Ionawr 2005.